# ATODLENNI

## ATODLEN 1

Rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer prif ardal pan na chynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad arall

## RHAN 3

### Y Bleidlais mewn Etholiadau lle Ceir Gornest

Y Bleidlais

**Cadw trefn yn yr orsaf**

**38.**—(1) Rhaid i'r swyddog llywyddu gadw trefn yn yr orsaf bleidleisio.

(2) Os bydd person yn camymddwyn mewn gorsaf bleidleisio, neu'n methu ag ufuddhau i unrhyw orchmynion a roddir yn gyfreithlon gan y swyddog llywyddu, caiff y swyddog llywyddu orchymyn i'r person gael ei symud o'r orsaf bleidleisio.

(3) Pan fo'r swyddog llywyddu yn gorchymyn bod person yn cael ei symud, caniateir i'r person gael ei symud ar unwaith—

(a) gan gwnstabl yn yr orsaf bleidleisio neu yn ei hymyl, neu

(b) gan unrhyw berson arall a awdurdodir mewn ysgrifen gan y swyddog canlyniadau i symud pobl o'r orsaf bleidleisio.

(4) Pan fo person wedi ei symud, ni chaiff fynd yn ôl, heb ganiatâd y swyddog llywyddu, i'r orsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais.

(5) Pan gyhuddir person sydd wedi ei symud o gyflawni trosedd yn yr orsaf bleidleisio, caniateir ymdrin â'r person fel person y mae cwnstabl wedi mynd ag ef i'r ddalfa am drosedd heb warant.

(6) Ni chaniateir i'r pwerau a roddir gan y rheol hon gael eu harfer er mwyn atal pleidleisiwr sydd fel arall â hawl i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio rhag cael cyfle i bleidleisio yn yr orsaf honno.